# LLOFFION LLANGYNFELYN

Rhifyn 1.

Braslun o Hanes y Chwarter
IONAWR - MAWRTH, 1956,

ynghyd â

Lloffion Amrywiol.

Pris 6ch.

# LLOFFION LLANGYNFELYN

Rhifyn 1, Ebrill 1956

Wele'r rhifyn cyntaf o'r "Lloffion" lleol. Bwriedir ei gyhoeddi bob chwarter, gan gynnwys pigion o hanes ein plwyf yn y presennol a'r gorffennol. Ceisir rhoi crynodeb o weithgarwch yr Eglwys a'r Capeli, y Cyngor Plwyf, Sefydliad y Merched (W.I.), y Pwyllgor Gwelliannau Lleol, y Clwb Pêl-droed, Y Gymdeithas Arddio ac o unrhyw beth o ddiddordeb a ddigwydd yn y cylch. Peth da hefyd fyddai cael tipyn o hanes ein plant alltud - pobl ieuainc y plwyf sydd yn y lluoedd arfog, yn gweini mewn ysbytai a mannau eraill. Croesewir unrhyw waith creadigol, boed ddarn o farddoniaeth, stori fer neu ysgrif fer, ac fe roddir croeso arbennig iawn i hen atgofion gan bobl sy'n cofio fel y bu pethau yma gynt. Cesglir ynghyd friwsion o hanes y plwyf sydd ar hyn o bryd yn wasgaredig mewn llawysgrifau, cyfnodolion neu lyfrau.

Mae'r antur hon felly, yn dibynnu ar gydweithrediad y plwyfolion yn casglu ac yn cyfrannu deunydd o ddiddordeb.

Dymunir diolch yn gynnes i Mr.Arthur Pugh, Manchester House, am fynd yn gyfrifol am brintio'r "Lloffion", ac i Mr.R.J.Thomas, M.A., a Mr.G.C.Jones am eu cyfraniadau gwerthfawr. Danfoner pob gohebiaeth i'r Golygydd, Tŷ'r Ysgol, Taliesin, Machynlleth.

---

## Braslun o Hanes y Chwarter: Ionawr - Mawrth 1956

| | | |
|---|---|---|
| Genedigaeth: | Ionawr 20. | Mab, Bryn, i Mr.a Mrs.H.LEWIS, Tynllwyn. |
| Priodasau: | Mawrth 10. | Mr.Ypres Davies, 1, Mill Street, Tre'rddôl, â Miss Edna Willmitt - yn Everton. |
| | Mawrth 17. | Mr.David Lewis Evans, Stryd y Capel, Taliesin, â Miss Isa Mason - yn Edinburgh. |
| | Mawrth 31. | Mr.Dafydd Rowlands, 3, Wesley Terrace, Taliesin, â Miss Mignon Roberts - yn Aberystwyth. |
| Marwolaeth: | Ionawr 2. | Mr.David R.Jenkins, Erglodd. |

mmmmmmmmmmmmmmmmmmmmmmmm

Yr oedd Dydd Calan ar y Sul eleni a hyfryd iawn oedd clywed y triawd melodaidd, y Mri.R.Rowlands, John Wynne a D.Rowlands yn canu "Y mae'r hen flwyddyn wedi mynd, Ni ddaw hi fyth yn ôl". Bu canmol cyffredinol ar y lleiswyr hyn.

Yr wythnos gyntaf bu'r ddrama "Yr Inspector" (J.B.Priestley) yn yr Hen Gapel dan nawdd Capel Soar. Perfformiwyd y ddrama gan Gwmni Machynlleth, a diddorol deall eu bod yn ei chwarae yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberdâr eleni. Cafwyd actio o safon da, a gwych iawn oedd gwaith y cynhyrchydd yn

cymryd rhan y prif gymeriad yn ddirybudd.

Tua'r adeg yma hefyd y daeth allan y Trethiannau newydd ar gyfer talu'r dreth. Yr oeddynt i'w gweled yn gyntaf yn Swyddfa'r Cyngor Gwledig yn Aberystwyth cyn iddynt ddyfod i Swyddfa'r Post yn Nhaliesin. Mynd i fyny oedd hanes y trethiannau bron i gyd a nifer ohonynt wedi mwy na dyblu. Bu hyn yn destun siarad mawr yn y plwyf. Y mae Gwerth Trethiannol Plwyf Llangynfelyn wedi codi o £1,023 i £2,008 yn y Rhestr Newydd.

Noson gofiadwy oedd Ionawr 17 pan ddaeth y prifardd, Y Parchedig W.J. Gruffydd, Talybont, i sgwrsio â Chymdeithas Pobl Ifainc Rehoboth ar ei bryddest fuddugol "Ffenestri", a Gwernfab gydag ef yn adrodd rhan o'r bryddest ac yn dynwared rhai o gewri maes yr Eisteddfod. Dangoswyd y Goron a roddwyd gan Gymry Los Angeles ac a gostiodd 500 o ddoleri, a chafodd pawb y fraint o wisgo'r goron hardd.

Ionawr 24. Cyngerdd at y Gronfa Adeiladu yn Festri Rehoboth a'r lle yn llawn. Yr oedd parti o Ysbyty Ystwyth ar eu hail ymweliad â'r pentref ac yn dangos diwylliant cefn gwlad ar ei orau. Yr oedd aelodau'r parti yn ieuainc a'r merched yn hynod o ddel. Llongyfarchiadau iddynt am waith o safon.

Ionawr 27. Noson oleuedig iawn. Daeth y ddau olau newydd ymlaen ar y ffordd fawr am y tro cyntaf, un wrth y Llan Fach a'r llall wrth gydiad y ddwy ffordd yn Nhre'rddôl. Yr un noson bu Gyrfa Chwist yn yr Ysgol dan nawdd y Gymdeithas Gwelliannau Lleol i helpu talu'r gost. Mr.J.Benbow a drefnodd y noson; Mr.J.J.Williams, Brondirion, oedd y M.C. a Sefydliad y Merched a aeth yn gyfrifol am y bwyd.

Chwefror 8. Tri chyfarfod ymlaen yn yr un noson, - Dosbarth Dysgu Cymraeg yn yr Ysgol, Gyrfa Chwist yn y Llan Fach a chyfarfod cyhoeddus o Undeb Cenedlaethol Ffermwyr Cymru yn Festri Rehoboth. Yr oedd Mr.G.C.Jones, Tanrallt, yn y gadair, a siaradwyd yn gryf o blaid yr Undeb newydd gan Mr.Roberts o Lanwrin a Mr.Geraint Howells o Bonterwyd, llywydd yr Undeb yn Sir Aberteifi. Y nod yw 15,000 o aelodau erbyn diwedd y flwyddyn.

Chwefror 22. Yng Nghapel Soar cafwyd cyngerdd uwchraddol gan Gôr Merched y Borth a Mrs.Bailey a Mrs.Augusta Roberts yn adrodd. Cafodd y rhai a wynebodd oerni'r noson wledd ragorol.

Yn ystod yr wythnosau yma bu dwy Ddeiseb ar droed yn y plwyf:-

(1) Y Ddeiseb yn gwrthwynebu agor y tafarnau ar y Sul.
(2) Deiseb y Senedd i Gymru.

Mawrth 4. Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Plant. Ers pedair blynedd bellach y mae gweithgarwch Gŵyl Ddewi'r Ysgol Gynradd wedi ei grynhoi at baratoi gwasanaeth crefyddol y plant. Pedair blynedd yn ôl fe ddigwyddodd y cyntaf o Fawrth syrthio ar Ddydd Sul, ac wedi cael bendith y rhieni a gweinidogion y plwy', fe drefnwyd cyfarfod cydenwadol ac fe gymerwyd "Dewi Sant" yn destun. Y testun y flwyddyn wedyn oedd "Y Beibl" a thestun llynedd oedd "Iesu Grist - yr Arwr". Eleni, fe gymerwyd "Caniadaeth y Cysegr" yn thema i'r cyfarfod ac fe gymerwyd rhan gan blant yr ysgol i gyd ar wahân i ddau oedd yn analluog i ddod. Amheuthun yw gweld cynulleidfa mor lluosog yn y capel ar fore Sul, a'r plant yn gwneud eu gwaith mor raenus. Yn ôl yr arfer cafwyd casgliad at achos teilwng, ac eleni Cymdeithas "T.B." Sir Aberteifi a'i derbyniodd.

Mawrth 9. Bob rhyw bum mlynedd daw'r Cwrdd Misol ar ei dro i Rehoboth. A'r dydd hwn daeth rhyw hanner cant o gynrychiolwyr yr Henaduriaeth ynghyd, a chawsant

ddiwrnod braf a chroeso cynnes. Bu paratoadau mawr gan wragedd yr eglwys, ac yn dystiolaeth i lwyddiant eu hymdrechion fe ddywedodd un gweinidog mai'r peth cyntaf y byddai yn ei ofyn wedi cyrraedd y nefoedd fyddai "A ydyw gwragedd Taliesin wedi cyrraedd?". Yn y prynhawn cafwyd agoriad gwych i'r Maes Llafur newydd, sef Efengyl Ioan, gan y Parch.D.Morris Jones, Aberystwyth. Yn yr hwyr cafwyd gwasanaeth cyhoeddus a phregeth gan Y Parchedig D.Morlais Jones, Talybont.

Yn ôl yr arferiad sydd bellach yn o hen yn y plwyf, cafwyd te a chyngerdd ar Ddydd Gwener y Groglith yn y ddau gapel. Yn yr hen ddyddiau bu gorymdeithio brwd ond bellach dim ond Soar sy'n cadw at hyn ac y mae hyd y siwrnai wedi ei chwtogi gryn dipyn. Diddorol fyddai cael atgofion am rai o'r achlysuron hyn.

Yn Rehoboth wedi te blasus cafwyd cyngerdd o eitemau amrywiol dan arweiniad Y Parchedig O.J.Roberts, ac yna sgwrs ddiddorol gan Mr.Arthur Pugh, Manchester House, ar hanes ei daith ar y Cyfandir yn ystod yr haf diwethaf. Dangoswyd ar y projector luniau lliw gwych iawn o'r daith.

Rhywbeth yn debyg oedd y drefn yn Soar: gorymdaith o gwmpas Tre'rddôl, te da ac yna Cyngerdd gan blant y Gobeithlu ynghyd â rhai eitemau gan y rhai mewn oed, a dangoswyd ffilmiau crefyddol gan y Gweinidog, Y Parchedig T.Trefor Parry.

LLONGYFARCHIADAU i :-

(1) Mrs.David Evans, Pengelli, gynt o'r Gwynfryn, ar gael ei gwneud yn Gadeirydd Mainc Ynadon Talybont. Y mae 93 o ynadon yn Sir Aberteifi; 60 o ddynion a 33 o wragedd. O'r rhain, yr Arglwydd Raglaw, Iarll Lisburne a apwyntiwyd gyntaf yn 1919. Ac yna daw Mrs.Evans gyda 30 mlynedd o wasanaeth.

(2) Eleri Gwenllian Jenkins, Neuadd-yr-ynys, am basio mewn Ffiseg yn Arholiad y G.C.E.

(3) Mai Evans, Bronallt, Taliesin, a gynrychiolodd blant y cylch yn y Rhaglen Radio a ddaeth o Ysgol Ardwyn. Hon oedd y bedwaredd yn y gyfres "Bro Mebyd" - cyfres o raglenni yn disgrifio rhai o ardaloedd Cymru trwy lygaid a diddordebau rhai o'r plant sydd yn byw ynddynt. Cafwyd gan Mai dipyn o hanes yr Hen Wrach, Taliesin a Chynfelyn.

(4) John R.Jones, Werndeg, Talybont, (Gwernfab), un o blant talentog yr ardal, a ymddangosodd yn y rhaglen Gymraeg ar y BBC nos Gŵyl Ddewi. Teitl y rhaglen oedd "Gwinllan a roddwyd i ni" a chlywyd Gwernfab yn dynwared rhai o wŷr amlwg ein cenedl. Fe'i clywsom droeon yn lleol, ac yr oedd yn hen bryd i'w dalent anghyffredin gael llwyfan ehangach.

(5) Lesley Mary Hughes, gynt o Hyfrydle, Taliesin, ac yn awr yn byw yng Nghaerdydd. Ymddangosodd yn y rhaglen Gymraeg "Tele-wele" - a deledwyd o Gaerdydd. Da clywed fod Lesley wedi meistroli'r Gymraeg gystal, ac i'w thîm hi ennill yr ornest.

(6) Jackie Phillips, Tre'rddôl, am y gamp anghyffredin o ymddangos ar raglen deledu enwog Wilfred Pickles sy'n dwyn y teitl "Ask Pickles". Yn y rhaglen cyfarfu â dau ffrind oedd yn yr un gatrawd ag ef adeg y rhyfel. Nid oeddynt wedi cwrdd ers pedair blynedd ar ddeg.

(7) Peter Magee, Pencae, Taliesin, am y deyrnged hon a ymddangosodd yn y Cambrian News yn ddiweddar:-

"Who is the most loyal club supporter in the league to-day? I nominate 85 year old Mr.Peter Magee. This season he has been linesman for Taliesin in all their games, and the other week, while a number of young men were

sheltering from the rain in the shed at Plasgrug, Mr.Magee dutifully stayed out to help the referee. Mr.Magee as well as being one of the founders of the Taliesin Club, is one of the founder members of the League. Well done, Mr.Magee ! The League certainly needs more men of your calibre."

(8) Martyn J.Parry, Y Ficerdy, am ddringo i safle uchel yn ei ddosbarth yng Ngholeg Crist, Aberhonddu, ac ar ei fedr fel rhedwr. Rhedodd ganllath mewn 14 1/5 eiliad; record y Coleg i fechgyn dan 11 yw 14 4/5 eiliad.

Y mae'n debyg fod y rhestr hon yn anghyflawn. Byddem yn falch, ar gyfer rhifynnau'r dyfodol, gael hanes unrhyw lwyddiant a ddaw i ran rhywun yn dal perthynas â'r plwyf.

mmmmmmmmmmmmm

Y GYMDEITHAS ARDDIO. Bu'r Gymdeithas hon yn dawel iawn drwy'r gaeaf, ond wedi i'r tywydd wella mae'r garddwyr wedi mynd ati o ddifrif bellach. Cyn hir bydd yn rhaid mynd ati i baratoi ar gyfer y Sioe Flynyddol.

Diddorol yw'r ddihareb Sineaidd hon ar ddedwyddwch garddwr:

"Os mynni hapusrwydd unawr, meddwa;
Os mynni ddedwyddwch am dridiau, lladd fochyn a'i fwyta;
Os mynni ddedwyddwch am dri mis, prioda;
Os mynni ddedwyddwch am oes, bydd yn arddwr."

(Codwyd o "Y Cymro").

Y DOSBARTH DYSGU CYMRAEG. Y llynedd cychwynnwyd y dosbarth hwn (dan y Pwyllgor Addysg Lleol) gan Y Parchedig J.Henry Griffiths. Dosbarth yw i ddysgu Cymraeg i Saeson neu Gymry nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Eleni, cymerwyd at y Dosbarth gan Y Parchedig T.Trefor Parry, Tre'rddôl. Trueni na bai modd cael rhagor i fynychu'r dosbarth buddiol yma.

Y CYNGOR PLWYF. Etholwyd y Cyngor Plwyf presennol ym Mai 1955, ac y mae wedi cyfarfod yn gyson ar y Llun cyntaf o bob mis oddi ar hynny. Y naw aelod yw Mrs.E.Edwards, Glasfryn; Miss C.W.Isaac, Hyfrydle; Mrs.T.Ll.Jones, Min-y-môr; y Mri.T.S.Jones, Pencae; Chambers Morris, Dyffryn; J.Benbow, Suncot; H.Morgan, Plas Penrhyn; D.Rowlands, Royal Oak; a G.C.Jones, Tanrallt, yn Gadeirydd a H.J.Evans, Tŷ'r Ysgol, yn glerc.

Gan fod nifer o welliannau yn angenrheidiol yn y plwyf a chan na fedd y Cyngor hawl i godi treth ar eu cyfer, aeth ati i ffurfio Pwyllgor Gwelliannau Lleol i geisio dwyn y maen i'r wal.

Wedi cael caniatâd Cyfarfod Cyffredinol aeth y Cyngor ati i gael y ddau olau newydd ar ochr y ffordd fawr. Costiodd y golau wrth y Llan Fach £18.9.0 a'r golau ger Tre'rddôl £55.12.3, cyfanswm o £74.1.3. I dalu amdanynt cafwyd trwy law Mr.T.J.Pugh, y Trysorydd, £19.13.6, sef y gweddill mewn llaw ar ôl dathliadau'r Coroniad; cafwyd rhodd anrhydeddus iawn o £30 gan y Gymdeithas Arddio; a'r gweddill angenrheidiol, sef £24.7.9, yn rhodd gan y Pwyllgor Gwelliannau Lleol.

Nid oes ofod i nodi ond rhai o'r pethau a drafodwyd gan y Cyngor yn ddiweddar :-

(1) Cafwyd Blwch-llythyrau newydd ger Dolau Gwyn. Cyn hynny bu raid i bobl yr ardal fynd i Dre'rddôl i bostio eu llythyrau.

(2) Bu gwelliant mawr ar y ffordd fawr rhwng Taliesin a Thre'rddôl. Nid ydyw'r llynnoedd dŵr yn aros fel cynt.

(3) Cafwyd addewid i wella'r palmant garw sy'n ymestyn o Manteg i Manchester House, ac addewid i wella'r gwter beryglus ar ymyl y ffordd fawr ger y Llan Fach.

(4) Codwyd sticil newydd braf ar y llwybr uwchlaw'r Fuches Goch.

(5) Cymhennwyd y ffordd sy'n arwain i fyny heibio i Gartrefle.

(6) Trwy gymorth parod Mr.T.J.Pugh rhoddwyd Tre'rddôl yn weddol uchol ar y rhestr i gael Telephone Kiosk.

(7) Ar gais y Cyngor Dosbarth awgrymwyd (a derbyniwyd) yr enw "Maes Cletwr" yn enw ar y tai newydd yn Nhre'rddôl.

(8) Problem a achosodd gryn bryder oedd wyneb peryglus y ffordd fawr ger Pencae, y bu cymaint o ddamweiniau arni. Yr ateb diweddaraf a gafwyd o'r Area Surveyor yw hwn :-

"Whilst I am unable to undertake any permanent improvement at the present "time, I have made arrangements for the section to be kept gritted "whenever the surface is either wet or affected by frost."

(9) Ceisiwyd gan y Cyngor Sir fabwysiadu'r ffordd i lawr heibio i Festri Rehoboth ac allan trwy Terrace Row. Arwyddwyd eu cytundeb i'r cynllun gan bawb o berchnogion y tai ar y ffordd hon, ond un. Gan hynny, ni fedrir symud ymlaen â'r gwaith ar hyn o bryd.

Bu'r misoedd diwethaf, felly, yn gyfnod prysur a thra llwyddiannus yn hanes y Cyngor Plwyf.

Y PWYLLGOR GWELLIANNAU LLEOL. Ffurfiwyd y pwyllgor yma ar awgrym y Cyngor Plwyf, ac y mae'n cynnwys, yn ychwanegol at aelodau'r Cyngor, ddau gynrychiolydd o bob Cymdeithas yn y plwyf. Etholwyd Mr.J.Benbow yn Gadeirydd, Mr.David Jones, Arosfa, yn Ysgrifennydd, a Mr.Glyn Price, Wesley Terrace, yn Drysorydd.

Yn cynrychioli'r Eglwys y mae Miss W.Hyatt, Marsh View, a Mr.Glyn Price; Soar - Y Mri.Ieuan Evans, Bronallt, a David Jones, Arosfa; Rehoboth - Miss Ruth Jones, Y Berth, a Mr.E.Ff.Lloyd, Gwarcwm Isaf; Sefydliad y Merched (W.I.) - Miss J.Pugh, Y Llythyrdy, a Miss S.Edwards, Coedmor; Y Gymdeithas Arddio - Miss L.M. Edwards, Llyscynfelyn, a Miss J.F.Thomas, Tremfor; Y Gymdeithas Bêl-droed - Mr.Robert Rowlands, Wesley Terrace, a Mr.Hennighan, Tre'rddôl.

Hyd yma trefnwyd gyrfa chwist lwyddiannus, a diolchir i bawb a gyfrannodd ymhob modd nes dwyn yr elw sylweddol o dros £27. Fel y nodwyd uchod, cyfrannwyd y swm angenrheidiol at glirio cost y golau.

Bwriedir cynnal Cyngerdd o dalentau lleol, yn fwyaf arbennig, ar nos Iau, Ebrill 12.

SEFYDLIAD Y MERCHED. (W.I.) Y mae Sefydliad y Merched yn dal i gyfarfod yn gyson ac i wneud gwaith da yn y plwyf. Ar Ionawr 20 cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol, a dewiswyd y pwyllgor canlynol: Llywydd - Mrs.Embury, West View; Is-lywyddion - Miss L.M.Edwards a Miss D.Owen, Epworth; Ysgrifennydd - Mrs.E. Edwards, Glasfryn; Trysorydd - Miss Ruth Jones; Gohebydd i'r Wasg - Miss Broome,

Pentrebach; Miss S.Edwards, Coedmor; Miss J.Pugh, Y Llythyrdy; Miss K.Isaac, Hyfrydle; Mrs.H.J.Evans, Tŷ'r Ysgol; Mrs.Bailey, Sea View Terrace; a Miss W. Hyatt, Marsh View. Y Sefydliad a aeth yn gyfrifol am y bwyd yn yr yrfa chwist at y Gwelliannau Lleol.

Yn Chwefror cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr.J.J.Williams, Brondirion, ar "Balesteina", ac ym mis Mawrth arddangosiad ar "Drawn Thred-work", gan Miss Rees, Bowstreet.

CREFYDDOL. Yn ychwanegol at y cyfarfodydd a nodwyd uchod a gynhaliwyd dan nawdd y capeli, aeth gweithgarwch crefyddol y plwyf yn ei flaen yn debyg i arfer, er bod y tywydd garw a chryn dipyn o salwch wedi bylchu tipyn ar y cynulleidfaoedd. Bu Cymdeithasau'r ddau gapel yn cwrdd yn gyson. Yn Soar cafwyd darlith gan Y Parchedig D.Morlais Jones, B.A., Talybont, ar "Atgofion", a darlith yn cael ei hegluro drwy ffilm-strip ar Ddrama'r Croeshoeliad yn Oberammergau gan Y Parchedig W.Idris Selby, Machynlleth. Dyma'r noson y defnyddiwyd Projector newydd y capel am y tro cyntaf. Yn Rehoboth cafwyd noson o Godi Cwestiwn a Mr.Evan Williams, Penywern, a Mr.G.C.Jones, Tanrallt, yn ateb, ac Anerchiad Cenhadol gyda chymorth ffilm-strip gan Mrs.Basil E.Jones, B.A., Oak Villa.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi Undebol yn ystod wythnos gyntaf y flwyddyn, ac ar Chwefror 17 gyfarfod gweddi dan nawdd Chwiorydd y Byd yn Festri Soar. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs.J.E.Thomas, Brynderw, Mrs.O.J.Roberts, Llysteg, a Mrs.T.Trefor Parry, Wesley Villa, yn cael eu cynorthwyo gan amryw o chwiorydd eraill.

Yn ystod Tymor y Grawys cynhaliwyd gwasanaeth bob wythnos yn y "Llan Fach" a phob dydd yn Eglwys Cynfelyn Sant yn yr Wythnos Sanctaidd. Yr oedd rhif y Cymunwyr Sul y Pasg tua phedwar ugain.

Dengys Mantolen y Cyfrifon fod y Derbyniadau am y flwyddyn 1955 yn £240. Anfonwyd £112 i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth, a chyfrannu £75 tuag at Apêl Coleg Dewi Sant, Llanbedr.

Bedydd Esgob :- Ymhlith y nifer mawr a gonffirmiwyd gan Arglwydd Esgob Tyddewi yn Eglwys Mihangel Sant ym mis Mawrth yr oedd dau o'r plwyf, sef Roy a Terry Pugh, Sunnyside.

TALIESIN FOOTBALL CLUB. - Report by Mr.J.Benbow, Secretary.

Since Christmas the team has not been as successful as in the earlier part of the season. The team has had its share of injuries and two players have been called up to National Service. Out of the 29 registered players we have great difficulty in fielding 11.

The lack of interest in my opinion is due to the fact that the team does not have a playing field where practice can take place, and apart from two persons, the committee which was formed shows no interest. Further, all our matches are played away. This involves heavy expense with no returns from gate money. Our captain, John Rowlands, Derwenlas, is the oldest member of the team and one of the most regular players and members. Likewise our Vice-Captain Peter Henninghan, Tre'rddôl, thinks it is a crime to miss a game. Gwynn Evans, who has been "called up" is missed very much, although a few of the younger players are showing a great deal of promise. Unfortunately, some of the most talented local footballers play for other teams in

a higher class, but it is only a natural ambition for all players to try to better themselves.

LLYFRGELL DEITHIOL Y SIR. Ers tua saith mlynedd bellach bu'r fan fawr yn crwydro Ceredigion ac yn rhoi cyfle i bobl fenthyca llyfrau yn weddol ddidrafferth. Daw i Dalicsin unwaith bob mis. Diddorol yw'r ffigurau am y nifer o lyfrau a fenthyciwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywed y Llyfrgellydd fod y nifer yn bur debyg i'r nifer a fenthycir mewn pentrefi eraill.

| | |
|---|---|
| Nofelau Saesneg (Fiction) ... ... ... | 441 |
| Llyfrau Eraill Saesneg (Non-fiction) ... | 92 |
| Nofelau Cymraeg ... ... ... ... | 9 |
| Llyfrau Eraill Cymraeg ... ... ... | 22 |
| Cyfanswm Llyfrau Saesneg ... ... ... | 533 |
| " " Cymraeg ... ... ... | 31 |

Gwelir felly fod 17 llyfr Saesneg am bob llyfr Cymraeg.

YR YMGYRCH LYFRAU CYMRAEG. Eleni am y trydydd tro eir o gwmpas yr ardal i geisio archebion am lyfrau Cymraeg. Y tro cyntaf gwerthwyd tua chant a deugain o lyfrau a llynedd archebwyd tua chant. Mae Eiriona Davies a Mai Evans eisioes wedi dechrau ar y gwaith da. Rhoddwch groeso cynnes iddynt.

YN Y LLUOEDD ARFOG. Hyd y gwyddom, tri o fechgyn y plwyf sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd ar hyn o bryd. Mae Lewis Oliver, Trwyn-y-buarth, yn yr R.A.F. yn Grantham, Swydd Lincoln, yn gweithredu fel batman/waiter, ac yn disgwyl mynd dros y dŵr yn bur fuan. Mae Gwynn Evans, Stryd y Capel, yn Bicester, nepell o Rydychen. Y mae ef yn y Fyddin ac yn gweithredu fel Vehicle Mechanic yn R.E.M.E. Yn yr Almaen y mae David Morris Macdonald, Oak Cottage. Ei gyfeiriad diweddaraf yw: Fus.Macdonald, A.Coy, 1st Batn. B.A.O.R., Dortmund, Germany. Daeth ei frawd, John Morgan Macdonald, yn rhydd o'r R.A.F. rai wythnosau yn ôl.

DAU ENGLYN GAN GWILYM C.JONES, TANRALLT.

Y Llwybr Troed.

Hir yw i ddyn; byr i ddau; - llwybr unig,
Llwybr anwel y bryniau;
A hwn geir o hyd yn gwau
Trwy sawr grug, tros arw greigiau.

Hiraeth.

Gweddi daer, agwedd dirion; - dyhead,
A daw yn ffrwd gyson;
Nwydau cêl gofid calon,
Aliwn friw, colyn y fron.

mmmmmmmmmmmmmmmmmm

## CYFRES AR GYMERIADAU'R ARDAL

(1) MARGARET MORRIS - A FU FARW YN GANT AC WYTH OED.

Diddorol yw'r disgrifiad canlynol a geir wedi ei gofnodi yn Log Book Ysgol Fwrdd Llangynfelyn gan yr ysgolfeistr, Samuel Prosser, dan y dyddiad Ionawr 20,1885.

"A half-holiday was given this afternoon to allow the school children to attend the funeral of Margaret Morris, the centenarian, who died on Thursday last, the 15th instant, at Tanyrallt.

She was born at Borth, according to the most reliable information, on the 12th September, 1776. Consequently she had reached the great age of 108 years and 4 months. For the last eight years of her life, she had been bed-ridden, chiefly on account of rheumatism in her legs. In other respects she was in perfect health, and in full possession of all her mental faculties up to the last.

She was buried at Talybont cemetery, and the funeral was attended by at least 400 persons representative of every sect and class in the district. The procession was headed by the teawhers and scholars of the Llancynfelin Mixed and Infants Schools.

Margaret Morris was remarkable for many things besides her longevity. She received no early education, but, when nearly 40 years of age, she learned to read her Welsh Bible by attending the Sunday School. She had a most retentive memory, and could repeat, at will, about ten chapters of the Bible. Frequently during her last years, she would repeat as many as six or seven chapters on a Sunday ! She had an inexhaustible store of verses, and most of the hymns of Williams, Pantycelyn, were quite familiar to her, and she never tired of repeating them.

Her piety was undoubted, and she used to astonish her visitors,by her wonderful memory, her fund of anecdote and her ready wit. In bodily appearance, and cheerfulness of spirit she was anything but a centenarian.

In connection with her longevity the following facts may be interesting. She was born in 1776 - the year in which the Americans issued their famous Declaration of Independence. She lived under four monarchs. For 44 years she was a contemporary of George III. She lived throughout the reigns of George IV and William IV, and was a subject of her present Majesty, Queen Victoria, for nearly 48 years. Napoleon and Wellington were both born only seven years before her, and yet she survived Napoleon by 64 years ! Wellington died at the advanced age of 83, but Margaret Morris survived him for 33 years. She was 39 years of age at the time of the Battle of Waterloo."

Nid yn aml y gwelir yr hen ysgolfeistri yn traethu mor hir yn y Log Books. Mae'n debyg fod Samuel Prosser wedi defnyddio'r achlysur i roddi gwers hanes go sylweddol i'w ddisgyblion.

Yn y gyfrol "Hanes Capel Seion", gan Y Parchedig D.J.Evans, B.A., B.D., ceir llun Marged Morris yn 105 oed. Yn y llyfr hwn, rhoddir dyddiad ei geni yn Medi 18, 1777, - blwyddyn y tair caib, a dywedir bod Marged Morris yn cofio clywed Daniel Rowland, Llangeitho yn pregethu yng nghapel cyntaf Tabernacl, Aberystwyth.

Yn yr un gyfrol ceir yr hanesyn canlynol am gysylltiad ein gwrthrych â "Diwygiad Dyffryn Paith" yn 1804.

"Yr oedd hi yn gwasanaethu gydag ewythr iddi yn Nantybenglog (Capel Seion). Digwyddodd bod gormod o lif yn afon Rheidol un Sul i fyned i Benllwyn. Daeth cennad yn gofyn caniatâd i gynnal cyfarfod i holi'r ysgol y Sul hwnnw yn nhŷ ei hewythr. Yn gynnil y rhoddwyd y caniatâd. Yr oedd Evan Evans, Aberffrwd, i ddyfod yno i holi. Y pwnc mawr yn y tŷ ydoedd pa fodd i ddarpar ar gyfer y pregethwr. Nid oedd

na the na siwgr na bara addas i'w roddi o'i flaen. Dywedodd Marged Morris - 'Rhoddwch chi ddau fesur o datws imi ar gefn y gaseg ac mi ofalaf fi am ddigon o fwyd gweddus i'r pregethwr'. Hynny a fu. Cyrchwyd y bara can, y siwgr coch a'r te o Aberystwyth. Daeth y Sul a'r pregethwr a'r bobl a bu yno holi ac adrodd a chynghori a gorfoleddu. Dymunwyd am yr un peth y Sul dilynol ac eilwaith a thrachefn. Enynnwyd cyffro crefyddol pwysig yn yr ardal. Ac ymysg eraill, clwyfwyd Marged Morris a rhoddodd ei hun yn gyntaf i'r Arglwydd ac yna i'w bobl yn ôl ewyllys Duw. Dywedir amdani yn adrodd dwy bennod gyfan o Lyfr Job, a phan ddaeth at yr adnod olaf o Bennod xxiii i'w theimladau ei llethu ac iddi dorri allan i wylo'n hidl. Yr adnodau hyn fu'n foddion ei hargyhoeddiad. (Job xxiii, 16-17: 'Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon a'r Hollalluog a'm cythryblodd, oherwydd na thorrwyd fi ymaith o flaen y tywyllwch ac na chuddiodd Efe y tywyllwch o'm gŵydd')".

(Allan o "Hanes Capel Seion", gan Y Parchedig D.J.Evans. td. 12-13).

YCHYDIG O HANES YR YSGOL ODDI AR 1870.

Yn 1870 pasiwyd Deddf Addysg Forster, a galwodd hon am adeiladu ysgolion newydd lle'r oedd angen amdanynt. I'r pwrpas hwn yr oedd Byrddau Ysgol (School Boards) i'w hethol ymhob plwyf, ac yr oedd y Byrddau hyn i ddarparu ar gyfer codi Ysgol Fwrdd trwy gymorth ariannol gan y Llywodraeth, trethi lleol a thaliadau gan y disgyblion. Yn fuan wedi 1870 codwyd cannoedd o Ysgolion Bwrdd yng Nghymru.

Etholwyd y Bwrdd Ysgol cyntaf yn Llangynfelyn yn Awst 1871. Dyma'r pump a etholwyd :-

H.C.Fryer, Lodge Park, (Cadeirydd)
Y Parch.David Young - Gweinidog Wesle - (Is-gadeirydd)
Y Parch.William Thomas - Ficer. (Clerc)
Thomas Thomas, Neuadd-yr-ynys.
Thomas Jones, Postfeistr.

Aethant ati'n ddioed i hysbysebu am ysgolfeistr yn y Caernarvon Herald, y Western Mail a'r Faner. Ymhen mis dewiswyd yr ysgolfeistr cyntaf, sef Richard Morris, am dâl o £90 y flwyddyn a 2/6 am bob plentyn a basiai yr arholiad blynyddol. Penodwyd ei wraig yn "sewing mistress" am £10 y flwyddyn, i weithio am dri phrynhawn yr wythnos.

Yna setlwyd faint oedd y plant i dalu am eu hysgol. Rhannwyd y rhieni yn dri dosbarth yn ôl rhyw gynllun a dyma'r taliadau wythnosol :-

| | Dosbarth 1. | Dosbarth 2. | Dosbarth 3. |
|---|---|---|---|
| Farmers ... ... ... | 4d | 3d | 2d |
| Tradesmen & Well-t-do-Workers | 3d | 2d | 1d |
| Labourers.. ... ... | 2d | 1½d | 1d |

Lle byddai 4 plentyn yn y teulu, yr oedd y pedwerydd yn rhydd o dalu. Telid yn wythnosol, ymlaen llaw, a phe bai rhywun bythefnos ar ôl 'roedd i gael ei wrthod. Bu llawer o helynt o dro i dro ynglŷn â thalu ac yr oedd dros £20 o ddyledion erbyn diwedd 1874.

Penodwyd Hannah Jones, Taliesin, i lanhau'r ysgol a gwneud tân am 2/- yr wythnos.

Ond y broblem fawr oedd cael ysgol gymwys. Buwyd yn trafod y priodoldeb o brynu'r Hen Gapel yn Nhre'rddôl a'i droi'n ysgol ond yr oedd gan Arolygwr yr Ysgolion rai gwrthwynebiadau i'r cynllun hwn. Erbyn 1875 gofynnwyd am "tenders" i godi ysgol newydd ar ddau lecyn, sef y llecyn lle y saif yr ysgol yn awr a Chae'r Ddôl. Mewn cyfarfod arbennig ym mis Mawrth, cynigiodd Mr.Thomas (Neuadd) a Mr.Jenkins (Henhafod) yn eilio, fod yr ysgol newydd i'w chodi yn Nhaliesin. Mr.Owen Owen, Dolcletwr, oedd yr unig wrthwynebydd - yr oedd ef am ysgol yng Nghae'rddôl.

Rhoddwyd y contract i Edward Felix i adeiladu ysgol a thŷ i'r ysgolfeistr am £725. Prynwyd y tir gan yr Esgob W.Basil Jones, Tyddewi, am £85 a £15 am y coed oedd arno. Benthyciwyd £915 o'r Public Works Loan Commissioners i'w ad-dalu'n flynyddol dros hanner can mlynedd gyda llog o 3½%.

(I'w barhau).

## LLOFFION O'R DYDDIAU GYNT

(Wedi eu casglu gan R.J.Thomas, M.A., Brynderw)

(1) Y Creaduriaid Hirhoedlog.

Ond y mae un creadur hŷn na myfi, Mwyalchen Cilgwri, a hwnnw ydyw Llyffant Cors Fochno; ac oni ŵyr hwnnw oedran Tylluan Cwmcawlyd nis gŵyr neb. Yna aeth yr Eryr at y Llyffant, a rhoddodd yr un gofyniad iddo yntau. Ac efe a atebodd, "Ni fwyteais i ddim erioed ond a fwyteais o'r ddaear, ac ni fwyteais hanner fy nigon o honno, ac a weli di y ddau fryn yna sydd wrth y gors? Mi a welais y fan yna yn dir gwastad, ac ni wnaeth dim hwynt gymaint ond a ddaeth allan o'm corff i, a bwyta cyn lleied; ac nid adnabûm i erioed mo'r Dylluan ond yn hen wrach yn canu 'tw-hw-hw' ac yn dychrynu plant gyda'i llais garw, fel y mae heddiw. Felly, Eryr Gwernabwy a Charw Rhedynfre a Mwyalchen Cilgwri a Gleisiad Glynllifon a Llyffant Cors Fochno a Thylluan Cwmcawlyd ydyw'r rhai hynaf yn y byd oll.

(Allan o "Cymru Fu", td. 172-3).

(2) Hen Benillion Lleol.

Yr Erglodd fawr las lydan,
A'r gwydde bach yn whiban,
A'r hen ŵydd fawr â'r gwddw cam,
A tharw bach Bryn Arian.

Daw'r gog i Goed y Gelli,
Ac wedyn siawns na elli
Fynd draw i'r figin yn fore iawn
I ladd y mawn pan welli.

(3) Bedd Taliesin.

Aethom yn y prynhawn i Daliesin, pentref a elwir felly oherwydd y dywedir bod bedd neu wely "Pen y beirdd" ar y bryn uwchlaw yno. Y mae lliaws mawr o weddillion derwyddol yn y cymdogaethau hyn, ond nid ydyw'n debyg, meddai Meyrick, fod Bedd Taliesin, pen y beirdd yn y chweched ganrif, yno; oblegid yr oedd ef yn byw wedi i Gristionogaeth groesog Rhufain gyrraedd Prydain ac ymledu ynddi. Tebycach fod y gweddillion ar Ben-sarn-ddu rhwng afonydd Ceulan a Chletwr yn goffadwriaethol am ryw archdderwydd; neu ynteu feallai fod yno gromlech lle y byddai dynion yn arfer cael eu haberthu. Cafwyd penglog yno ers blynyddoedd amryw yn ôl, yr hwn, yn ôl pob tebyg, a berthynai i offrymwr neu i offrymedig, ac nid i Daliesin. Pentwr o ddaear ydyw'r gwely, a dau gylch o gerrig o'i gwmpas, un yn saith troedfedd ar hugain, a'r llall yn un droedfedd ar ddeg ar hugain o dryfesur; ac yng nghanol y cylch hwnnw y mae gwely o bum carreg chwe troedfedd o hyd a dwy a hanner o led, a chlawr o chwe throedfedd o hyd a thair troedfedd a chwe modfedd o

led. Mae'r clawr wedi cael ei godi a'i osod o'r neilltu ers talm. Ac mae'r chwedl yn yr ardal yn awr, a bu amser pan gredid hi gan bawb, y byddai i bwy bynnag a gysgai noswaith ar y gwely hwn ddeffro drannoeth yn wallgofddyn neu yn fardd. Mewn cae a elwir "Llety Angharad bach" ar yr Erglodd y mae dwy garreg, am y rhai y mae proffwydoliaeth pan ymddangoso'r drydedd y bydd diwedd y byd.

(Allan o "<u>Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Barch.D.Rees, Llanelli</u>", 1871, td. 419-20).

(4) <u>Y Cwcwll Tal</u>.

Tua chant ac ugain o flynyddoedd yn ôl yr oedd yn Nhre'rddôl ddyn ieuanc o'r enw Dafydd Edwards yn gwasanaethu fel egwyddorwas i wneuthurwr hetiau cyfrifol. Yr oedd Dafydd Edwards yn un hynod ddeheuig fel gwneuthurwr hetiau merched, sef "y Cwcwll Tal". Symudodd o Dre'rddôl i Amlwch yn Ynys Môn. Bu'n cario ei grefft ymlaen am lawer o flynyddoedd yn yr ynys yna; a chadwai weithiwr neu ddau yn aml. Byddai un ohonynt yn cynorthwyo Dafydd Edwards ar amserau i gludo pentyrrau o hetiau o bob math i Aberdâr, Merthyr, Dowlais, Rhymni, Tredegar a Phen-y-cae. Mab i Ddafydd Edwards y Ffeltiwr oedd Mr.David Edwards, fferyllydd y Drug Hall, Amlwch; ac y mae'r bloc â'r hwn y byddai ei dad yn gwneud y cycyllau tal yn ei feddiant ef yn awr: a'r tebyg yw nad oes un arall yng Nghymru, gan mai Mr.Edwards oedd yr unig wneuthurwr yn y wlad. Dygwyd y bloc a nodwyd ganddo o Dre'rddôl i Amlwch, pan symudodd yno ar y cychwyn.

(Allan o'r <u>Geninen</u>, cyf.xii, td. 280).

mmmmmmmmmmmmmmm